**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/00160/17

Mike Hedges AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

8 Mawrth 2017

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr yn dilyn trafodaeth y pwyllgor o ddeiseb P-05-739 'Achub Gwasanaethau Twf', sy'n gofyn am wybodaeth bellach am raglen 'Cymraeg i Blant'.

Mae cefnogaeth leol 'Cymraeg i Blant' yn cael ei gynnig yn yr 14 awdurdod lleol canlynol ar hyn o bryd:

- Conwy
- Powys
- Sir Benfro
- Sir Gar
- Castell Nedd Port Talbot
- Abertawe
- Pen-y-bont
- Bro Morgannwg
- Rhondda Cynon Tâf
- Merthyr Tudful
- Caerdydd
- Caerffili
- Blaenau Gwent
- Casnewydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe gyhoeddais ar 15 Chwefror y bydd y rhaglen yn cael ei ymestyn o Ebrill 2017 er mwyn cynnig cefnogaeth ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae Mudiad Meithrin, sy'n darparu'r gwasanaethau lleol ar ein rhan, eisoes wedi cychwyn ar y broses o recriwtio swyddogion ychwanegol er mwyn hwyluso'r ehangu hwn.

Mae'r gefnogaeth genedlaethol a oedd yn cael ei ddarparu gan 'Twf', sydd nawr yn rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a buddion dwyieithrwydd i rieni plant ifanc, ac annog siaradwyr Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant
- darparu cardiau sgan a ffolderi mamolaeth wedi'u brandio
- gweithio gyda GIG Cymru a phartneriaid eraill cenedlaethol er mwyn rhannu gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd.

Yn ddiweddar, mae hyn wedi cynnwys datblygu 'Dechrau'r Daith at Ddwy Iaith' – canllaw i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2017 – yn ogystal â chydweithio gyda GIG Cymru ar Gofnod Iechyd Personol Plentyn (neu'r 'llyfr coch') er mwyn ymgorffori negeseuon allweddol am ddwyieithrwydd i'r wybodaeth sy'n cael ei ddarparu i rieni newydd.

Yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language